# COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 12 RHAGFYR 2017, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd MJ Kearn – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A Hussain | RM James | JE Lewis | G Thomas |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nick Dennison | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

## 35. DATGAN BUDDIANT

Dim

## 36. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cadarnhau bod cofnodion yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 19 Hydref 2017 yn gywir.

## 37. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Trwyddedu adroddiad a oedd yn ymwneud â chais Mr Stephen Griffiths i drwyddedu cerbyd Mercedes E220 â'r rhif cofrestru EF12 OBW fel cerbyd hurio preifat i eistedd 4 o bobl. Roedd yn gerbyd ail-law ac fe'i cofrestrwyd gyntaf gyda'r DVLA ar 17 Gorffennaf 2012.

Roedd Mr Griffiths yn bresennol i gefnogi'i gais a gohiriodd yr Is-bwyllgor y cyfarfod i fwrw golwg dros y cerbyd. Wedi archwilio'r cerbyd, cadarnhawyd mai'r milltiroedd ar y cloc oedd 81,597. Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu nad oedd y cais yn dod o fewn y Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Fodd bynnag, gellid ystyried llacio'r polisi dan amgylchiadau eithriadol. Nid oedd cadeiriau olwyn yn gallu mynd i mewn i'r cerbyd. Darparwyd cofnod o'r gwasanaeth yr oedd y cerbyd wedi'i gael a chadarnhawyd mai'r milltiroedd ar y cloc oedd 70,176 ar 24 Awst 2016.

Hysbysodd yr ymgeisydd yr Is-bwyllgor ei fod yn bwriadu defnyddio'r cerbyd i wneud gwaith corfforaethol a chludo pobl i feysydd awyr petai'i gais yn llwyddiannus.

Ymneilltuodd Aelodau'r Is-bwyllgor i ystyried y cais.

PENDERFYNWYD:

Ystyriodd y Pwyllgor y cais am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â cherbyd â'r rhif cofrestru EF12 OBW.

Nododd y Pwyllgor nad oedd y cais yn dod o dan baragraff 2.1 Canllawiau Polisi Trwyddedu'r Cyngor. Nodwyd mai'r milltiroedd ar y cloc ar hyn o bryd oedd 81,597 ac mai bwriad yr ymgeisydd oedd defnyddio'r cerbyd i gludo pobl i feysydd awyr.

Ystyriodd y Pwyllgor baragraffau 2.2 a 2.2.5 y polisi a'r amgylchiadau eithriadol a allai arwain at lacio'r polisi. Ym marn y Pwyllgor, roedd cyflwr rhagorol y cerbyd, oddi mewn a thu allan, ynghyd â'r ffaith ei fod yn eithriadol ddiogel ac esmwyth, yn berthnasol yn yr achos hwn.

Gan hynny, dyfarnodd yr Is-bwyllgor y drwydded y gofynnwyd amdani.

38. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Trwyddedu adroddiad a oedd yn ymwneud â chais Mr Stephen Griffiths i drwyddedu cerbyd Ford Tourneo â'r rhif cofrestru YC14 XLY fel cerbyd hurio preifat i eistedd 8 o bobl. Roedd yn gerbyd ail-law ac fe'i cofrestrwyd gyntaf gyda'r DVLA ar 8 Mai 2014.

Roedd Mr Griffiths yn bresennol i gefnogi'i gais a gohiriwyd y cyfarfod er mwyn bwrw golwg dros y cerbyd. Wedi archwilio'r cerbyd, cadarnhawyd mai'r milltiroedd ar y cloc oedd 68,070. Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu nad oedd y cais yn dod o fewn y Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Fodd bynnag, gellid ystyried llacio'r polisi dan amgylchiadau eithriadol. Nid oedd cadeiriau olwyn yn gallu mynd i mewn i'r cerbyd. Darparwyd cofnod o'r gwasanaeth yr oedd y cerbyd wedi'i gael a chadarnhawyd mai'r milltiroedd ar y cloc oedd 59,442 ar 14 Chwefror 2017.

Hysbysodd yr ymgeisydd yr Is-bwyllgor ei fod yn bwriadu defnyddio'r cerbyd i wneud gwaith corfforaethol a chludo pobl i feysydd awyr petai'i gais yn llwyddiannus.

Ymneilltuodd Aelodau'r Is-bwyllgor i ystyried y cais.

PENDERFYNWYD:

Ystyriodd y Pwyllgor y cais am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â cherbyd â'r rhif cofrestru YC14 XLY.

Nododd y Pwyllgor nad oedd y cais yn dod o dan baragraff 2.1 Canllawiau Polisi Trwyddedu'r Cyngor. Nodwyd mai'r milltiroedd ar y cloc ar hyn o bryd oedd 68,070 ac mai bwriad yr ymgeisydd oedd defnyddio'r cerbyd i gludo pobl i feysydd awyr.

Ystyriodd yr Aelodau baragraffau 2.2 a 2.2.5 y polisi a'r amgylchiadau eithriadol a allai arwain at lacio'r polisi. Ym marn y Pwyllgor, roedd cyflwr rhagorol y cerbyd, oddi mewn a thu allan, ynghyd â'r ffaith ei fod yn eithriadol ddiogel ac esmwyth, yn berthnasol yn yr achos hwn.

Gan hynny, dyfarnodd yr Is-bwyllgor y drwydded y gofynnwyd amdani.

39. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Trwyddedu adroddiad a oedd yn ymwneud â chais Mr David Llewellyn i drwyddedu cerbyd salŵn Mercedes E Class â'r rhif cofrestru BF64 HKP fel cerbyd hurio preifat i eistedd 4 o bobl. Roedd yn gerbyd ail-law ac fe'i cofrestrwyd gyntaf gyda'r DVLA ar 29 Medi 2014.

Roedd Mr Llewellyn yn bresennol i gefnogi'i gais a gohiriwyd y cyfarfod er mwyn bwrw golwg dros y cerbyd. Wedi archwilio'r cerbyd, cadarnhawyd mai'r milltiroedd ar y cloc oedd 32,737. Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu nad oedd y cais yn dod o fewn y Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Fodd bynnag, gellid ystyried llacio'r polisi dan amgylchiadau eithriadol. Nid oedd cadeiriau olwyn yn gallu mynd i mewn i'r cerbyd. Darparwyd cofnod o'r gwasanaeth yr oedd y cerbyd wedi'i gael a chadarnhawyd mai'r milltiroedd ar y cloc oedd 32,538 ar 30 Tachwedd 2017.

Hysbysodd yr ymgeisydd yr Is-bwyllgor ei fod yn bwriadu defnyddio'r cerbyd i wneud gwaith corfforaethol a chludo pobl i feysydd awyr petai'i gais yn llwyddiannus.

Ymneilltuodd Aelodau'r Is-bwyllgor i ystyried y cais.

PENDERFYNWYD:

Ystyriodd y Pwyllgor y cais am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â cherbyd â'r rhif cofrestru BF64 HKP.

Nododd y Pwyllgor nad oedd y cais yn dod o dan baragraff 2.1 Canllawiau Polisi Trwyddedu'r Cyngor. Nodwyd mai'r milltiroedd ar y cloc ar hyn o bryd oedd 32,737.

Ystyriodd y Pwyllgor baragraffau 2.2 a 2.2.5 y polisi a'r amgylchiadau eithriadol a allai arwain at lacio'r polisi. Ym marn y Pwyllgor, roedd cyflwr rhagorol y cerbyd, oddi mewn a thu allan, ynghyd â'r ffaith ei fod yn eithriadol ddiogel ac esmwyth, yn berthnasol yn yr achos hwn.

Gan hynny, dyfarnodd yr Is-bwyllgor y drwydded y gofynnwyd amdani.

40. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Trwyddedu adroddiad a oedd yn ymwneud â chais Mr James Preece i drwyddedu Skoda Superb â'r rhif cofrestru JT11 VOR fel cerbyd hurio preifat i eistedd 4 o bobl. Roedd yn gerbyd ail-law ac fe'i cofrestrwyd gyntaf gyda'r DVLA ar 23 Mawrth 2017.

Roedd Mr Preece yn bresennol i gefnogi'i gais a gohiriwyd y cyfarfod er mwyn bwrw golwg dros y cerbyd. Wedi archwilio'r cerbyd, cadarnhawyd mai'r milltiroedd ar y cloc oedd 15,947. Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu nad oedd y cais yn dod o fewn y Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Fodd bynnag, gellid ystyried llacio'r polisi dan amgylchiadau eithriadol. Nid oedd cadeiriau olwyn yn gallu mynd i mewn i'r cerbyd ac roedd modd gweld y cofnod gwasanaeth ar-lein ar wefan Skoda.

Ymneilltuodd Aelodau'r Is-bwyllgor i ystyried y cais.

PENDERFYNWYD:

Ystyriodd y Pwyllgor y cais am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â cherbyd â'r rhif cofrestru JT11 VOR.

Nododd y Pwyllgor nad oedd y cais yn dod o dan baragraff 2.1 canllawiau Polisi Trwyddedu'r Cyngor. Nodwyd mai'r milltiroedd ar y cloc ar hyn o bryd oedd 15,947 a nodwyd manylion y gwasanaeth yr oedd y cerbyd wedi'i gael yn y dogfennau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor baragraffau 2.2 a 2.2.5 y polisi a'r amgylchiadau eithriadol a allai arwain at lacio'r polisi. Ym marn y Pwyllgor, roedd cyflwr rhagorol y cerbyd, oddi mewn a thu allan, ynghyd â'r ffaith ei fod yn eithriadol ddiogel ac esmwyth, yn berthnasol yn yr achos hwn.

Gan hynny, dyfarnodd yr Is-bwyllgor y drwydded y gofynnwyd amdani.

41. MATERION BRYS

Dim

42. EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, penderfynwyd eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod tra ystyriwyd y materion canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Wedi cynnal prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol yn gyfrinachol, gan eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod, gan mai'r farn oedd, ym mhob un o'r amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r eitemau, bod lles y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn gorbwyso lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, gan y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr a enwyd.

43. CYMERADWYO'R COFNODION EITHRIEDIG

44. CAIS AM DRWYDDED

45. CAIS AM DRWYDDED

Daeth y cyfarfod i ben am 11:20